


Safonau'r Gymraeg Adroddiad Blynyddol

1 Awst 2020 - 31 Gorffennaf 2021



Mae fersiwn Gymraeg o'r adroddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho ar wefan y Brifysgol ac mae copïau caled Cymraeg a Saesneg ar gael mewn swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd.

Cynnwys

Cyflwyniad	Tudalen	3
Cefndir/cyd-destun yr adroddiad	Tudalen	5
Monitro cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg	Tudalen	6
Gweithredu Safonau'r Gymraeg	Tudalen	7
Gwasanaethau Cyfieithu Cymraeg	Tudalen	14
Swyddi a Sgiliau Iaith Gymraeg	Tudalen	14
Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn weithredol	Tudalen	15
Nifer yr ymwelwyr â thudalennau gwe Cymraeg	Tudalen	23
Nifer y staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg	Tudalen	25
Hyfforddiant a chysiau drwy gyfrwng y Gymraeg	Tudalen	25
Cwynion a wnaed yn uniongyrchol i'r Brifysgol	Tudalen	25
Hap-wiriadau mewnol	Tudalen	27

Cyflwyniad

Mae'r Brifysgol yn falch o gyhoeddi ei Hadroddiad Monitro Blynyddol o Safonau'r Gymraeg yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Awst 2020 a 31 Gorffennaf 2021. Mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd y Safonau, nid yn unig fel gofyniad statudol wedi'i ymgorffori ym Mesur y Gymraeg 2011, ond fel modd o gefnogi a galluogi defnydd y Gymraeg yng ngwaith y Brifysgol.

Er gwaethaf yr heriau niferus yr ydym wedi'u hwynebu, yn bersonol ac yn broffesiynol dros y flwyddyn ryfeddol ddiwethaf, rwy'n falch bod y Brifysgol wedi parhau i wneud cynnydd gyda'i chydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg a darpariaeth y Gymraeg. Daeth adroddiad archwilio mewnol cadarnhaol i'r casgliad bod gan y Brifysgol fframwaith sefydledig i ddangos cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ac ni nodwyd unrhyw gamau rheoli. Hefyd, ni wnaed unrhyw gwynion ffurfiol yn uniongyrchol i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg nac yn ffurfiol/anffurfiol yn uniongyrchol i'r Brifysgol, sy'n dyst i'n hymrwymiad i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Fodd bynnag, mae'r tîm cydymffurfiaeth wedi ymrwymo i welliant parhaus. Rydym yn parhau i fonitro, darparu cyngor ac arweiniad, nodiadau atgoffa i Staff a hyfforddiant ynghyd â'r adroddiadau rheolaidd sy'n cael eu hystyried gan Bwyllgor Monitro'r Gymraeg.

Mae ymgysylltu â'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg hefyd wedi gweld cynnydd wrth i waith pwysig barhau gyda rhaglenni newydd wedi'u dilysu sy'n ystyried y ddarpariaeth Gymraeg yn ofalus wrth ddylunio'r cwricwlwm. Mae'r Brifysgol hefyd wedi gweithredu fel arweinydd sector ar brosiect Cymru gyfan sylweddol sy'n cefnogi dysgu digidol, gan gynnwys datblygu adnoddau cyfrwng Cymraeg - ceir mwy o fanylion am hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Mae hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru wedi parhau hefyd gyda Chylchlythyr Cymraeg@Glyndŵr (darllen diddorol bob amser), flogiau ac ymadroddion yr wythnos Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg (am bethau fel Diwrnod Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi) sydd wedi cadw ni gyd i fynd ar adegau a hefyd wedi ein helpu i ddysgu ambell ymadrodd Cymraeg newydd. Ceir llawer mwy o fanylion am hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Mae yna wybodaeth yn yr adroddiad hefyd am ein Heiriolwyr Iaith Gymraeg sydd newydd eu cyflwyno a hoffwn ddiolch iddynt a thynnu eich sylw atynt. Mae'r rhain yn aelodau o staff sydd wedi gwirfoddoli i helpu cydweithwyr (ar ben eu gwaith o ddydd i ddydd) pe bai angen cymorth arnynt gyda darnau bach o waith cyfieithu ac mae'n dyst i'r ymrwymiad i weithio i helpu ein gilydd sydd gennym yma ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam.

Credaf fod yr adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd rydym wedi'i wneud mewn perthynas â chydymffurfio â'r Safonau yn ystod 2020/21, gyda chynnydd da wedi'i wneud, er gwaethaf yr heriau yr ydym i gyd wedi'u hwynebu ac edrychwn ymlaen at barhau â'r gwaith cadarnhaol hwn yn ystod 2021/22.

Yr Athro Claire Taylor

Dirprwy Is-ganghellor a Chadeirydd Pwyllgor Monitro'r Iaith Gymraeg

Cefndir/cyd-destun yr adroddiad

Dan Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, mae gofyn i bob corff cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â dyletswyddau iaith sy'n sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau yn cynnwys annog hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac yn gofyn bod darpariaeth Gymraeg ar gael i'r cyhoedd.

Yn unol ag Adran 44 o Fesur 2011, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg [Hysbysiad Cydymffurfio](#) ar 29 Medi 2017 i'r Brifysgol yn cynnwys 178 safon unigol y mae gofyn i'r Brifysgol gydymffurfio â nhw dan y themâu canlynol; darparu gwasanaethau, gweithdrefnol, llunio polisiau a chadw cofnodion.

Mae'r Safonau yn manylu ar ein cyfrifoldebau o safbwynt darparu gwasanaethau dwyieithog er mwyn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Eu nod yw:

- egluro'n glir wrth y Brifysgol beth yw ei dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg,
- egluro'n gliriach i fyfyrwyr, staff a'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg pa wasanaethau gallant ddisgwyl eu cael drwy'r Gymraeg gan y Brifysgol
- cysoni a gwella ansawdd gwasanaethau Cymraeg.

Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg ddyletswydd statudol i fonitro cydymffurfiaeth sefydliadau gyda Safonau'r Gymraeg, ac archwilio cwynion ac achosion o beidio â

chydymffurfio. Mae gan y Comisiynydd yr hawl i bennu camau gorfodi, dyfarniadau llys sirol a dirwyon.

Mae gan y Brifysgol dudalen Polisi Iaith Gymraeg ddynodedig ar ei gwefan, a ddangosir ar y sgrinlun isod. Mae'r dudalen hon yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â chyflwyno Safonau'r Gymraeg a gallwch hefyd weld Hysbysiad Cydymffurfio'r Brifysgol yno. Yma, byddwch hefyd yn dysgu mwy am y gwasanaethau gall siaradwyr Cymraeg eu disgwyl gennym, y gwasanaethau gall myfyrwyr eu disgwyl gennym, dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (fel gofal bugeiliol, asesiadau, cyfathrebu a llety). Ar y dudalen hon hefyd mae ein Polisi Iaith Gymraeg, Canllawiau Cwynion, Adroddiadau Blynyddol a gwybodaeth gyswllt.



<https://glyndwr.ac.uk/cy/amdanom-ni/y-gymraeg-ym-mhrifysgol-glyndwr-wreccsam/>

Monitro cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg

Fel corff cyhoeddus, mae gofyn i'r Brifysgol fod yn hunanreoleiddiol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys monitro ein cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg a sicrhau ein bod yn cynnig digon o gyfleoedd i bawb ddefnyddio'r iaith Gymraeg wrth weithio, astudio neu ymweld â ni.

Mae monitro cydymffurfiaeth â'r safonau yn cynnwys cyhoeddi Adroddiad Monitro Blynyddol ar y wefan allanol erbyn 31 Ionawr bob blwyddyn, i gynnwys y canlynol:

- Y ffordd mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â gwahanol ddsbarthiadau o safonau
- Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau iaith Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw - Safon 158
- Nifer (a chanran os yw'n berthnasol) y gweithwyr sydd wedi gwneud hyfforddiant penodol y mae'n rhaid ei ddarparu drwy'r Gymraeg os yw ar gael yn Saesneg (yn benodol recriwtio a chyfweld; rheoli perfformiad; gweithdrefnau disgyblu a chwynion; cynefino; delio â'r cyhoedd ac iechyd a diogelwch) - Safon 159
- Nifer y swyddi gwag a newydd sydd wedi'u categorio fel rhai y mae Sgiliau Iaith Gymraeg yn hanfodol, dymunol, ddim yn berthnasol ar eu cyfer neu angen eu dysgu - Safon 162
- Nifer y cwynion y mae'r Brifysgol wedi'u derbyn ynghylch pob dosbarth o'r safonau - Safon 166

Gweithredu Safonau'r Gymraeg

Llywodraethu Pwyllgor Monitro'r Iaith Gymraeg

Sefydlwyd y pwyllgor hwn gan y Dirprwy Is-ganghellor ym mis Awst 2018 (yn dilyn terfynu'r Grŵp Monitro'r Iaith Gymraeg anffurfiol blaenorol). Mae'r pwyllgor yn cynnwys aelodau o'r uwch dîm rheoli a staff gweithredol ar lefel briodol, mae'n bwyllgor ymgynghorol nad oes ganddo bwerau gwneud penderfyniadau dirprwyedig ac mae'n is-bwyllgor i Dîm Gweithredol yr Is-ganghellor. Mae gan y Dirprwy Is-Ganghellor

arweinyddiaeth strategol ar gyfer Safonau'r Gymraeg o safbwynt cydymffurfio ac iaith. Bodlonir gweithrediad o ddydd i ddydd y ddarpariaeth Gymraeg gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gwasanaethau Myfyrwyr a Hyrwyddwr Iaith Gymraeg y Brifysgol. Bodlonir gweithrediad o ddydd i ddydd cydymffurfiaeth â'r Gymraeg gan Gyfreithiwr y Brifysgol a'r Uwch Swyddog Cydymffurfio. Yr Is-ganghellor sy'n gyfrifol yn y pen draw am gydymffurfiaeth y Brifysgol â safonau'r Gymraeg.

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bedair gwaith bob blwyddyn Academiaidd yn unol â'i Gylch Gorchwyl.

Adolygir yr Adroddiad Blynyddol hwn gan y pwyllgorau canlynol o fewn y Brifysgol y mae eu Cylch Gorchwyl yn cynnwys gofyniad i fonitro cydymffurfiaeth y Brifysgol â Safonau'r Gymraeg:

- *Pwyllgor Monitro'r Iaith Gymraeg*
- *Tim Gweithredol yr Is-ganghellor*
- *Pwyllgor Adnoddau Dynol y Bwrdd*

Rôl a swyddogaeth y pwyllgor hwn yw cefnogi a hwyluso cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ledled y Brifysgol fel y manylir isod:

1. **Polisiâu a Gweithdrefnau** - Sicrhau bod polisiâu a gweithdrefnau perthnasol yn cael eu sefydlu er mwyn cydymffurfio â'r holl deddfwriaethau perthnasol, wrth fonitro'r gweithredu a sicrhau bod yr holl bolisiâu a gweithdrefnau o'r fath yn cael eu diweddarau'n rheolaidd.
2. **Rheoli Risg** - Goruchwylio'r gwaith o weithredu strategaethau/polisiâu sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth a monitro cydymffurfiaeth yn erbyn deddfwriaeth o'r fath. Sicrhau bod y Brifysgol yn cadw cofnodion ac yn adrodd yn briodol ac yn brydlon yn ôl y gofyn yn unol â Hysbysiad Cydymffurfio'r Brifysgol.
3. **Arfer** - Hyrwyddo a magu diwylliant o wella ansawdd a rhannu arfer dda mewn perthynas â'r iaith Gymraeg; sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd uchel ar gael wrth ddarparu gwasanaeth ynghyd ag unrhyw arweiniad a chefnogaeth, a helpu i roi eglurder ynghylch dehongli Safonau perthnasol a sut all arferion y Brifysgol gydymffurfio.

4. **Cyfathrebu a datblygiad staff** - Datblygu a goruchwylio'r gwaith o weithredu'r rhaglen gyfathrebu a hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o fewn y Brifysgol, a gydag eraill fel sy'n briodol, ynglŷn â phob agwedd ar yr Iaith Gymraeg, cynnig cyngor priodol mewn ymateb i ddiwyddiadau ac achosion a chefnogi staff i ddatblygu'r sgiliau ac ymddygiad sydd eu hangen er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

5. **Cwynion** - Derbyn adroddiadau, a gwneud argymhellion ar gamau gweithredu, dilyn trywydd unrhyw gwynion (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i Safonau'r Gymraeg) a lle bo'n briodol, ymgymryd â champau gweithredu adferol neu eu hargymell, a monitro'r camau hyn a gymerwyd.

Darpariaeth y Gymraeg

Mae gan y Brifysgol Gynllun Gweithredu Cyfrwng Cymraeg sy'n nodi'r uchelgeisiau a'r camau gweithredu a fwriedir i ehangu cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn ac ochr yn ochr â'r cwricwlwm. Mae'r cynllun yn cael ei ddatblygu a'i arwain gan Hyrwyddwr Iaith Gymraeg y Brifysgol a'i gefnogi gan waith Swyddog Cangen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a chaiff ei fonitro a'i gefnogi trwy Grŵp Mynediad ac Ymgysylltiad Dysgwyr y Brifysgol sy'n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Is-Ganghellor.

Er gwaethaf yr heriau niferus yr ydym wedi'u hwynebu, mae'r Brifysgol wedi parhau i wneud cynnydd ac mae gwaith pwysig wedi parhau gyda rhaglenni newydd wedi'u dilysu sy'n ystyried y ddarpariaeth Gymraeg yn ofalus wrth ddylunio'r cwricwlwm trwy brosesau IPPF, SHAPE a CREATE yn y Brifysgol. Mae'r prosesau hyn yn parhau i ofyn i raglenni arddangos y ffordd y byddant yn ystyried defnyddio'r iaith Gymraeg wrth ddylunio cwricwlwm eu rhaglen. Gofynnir i raglenni newydd ystyried yn ofalus cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr astudio unrhyw agwedd ar y cwricwlwm y dymunant yn Gymraeg yn ogystal â chynnig cyfle iddynt gael tiwtor personol Cymraeg, cyflwyno gwaith yn Gymraeg ac ennill profiad yn y diwydiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg wedi cyflawni llawer eto, a cheir tystiolaeth yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, er iddynt orfod oedi yn eu dyletswyddau oherwydd ymrwymadau eraill y Brifysgol, mae cydnabyddiaeth yn gwbl haeddiannol.

Aeth y Swyddog Ymgysylltu â Myfyrwyr a Swyddog Cangen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i'w Ffair y Glas gyntaf a oedd yn cynnwys hyrwyddo'r Dystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg, isod mae detholiad o'r erthygl yn y Cylchlythyr yn trafod hyn:



Yn ystod 2020, ymunodd Prifysgol Glyndŵr â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae wedi gallu cynnig cyfle i'r myfyrwyr astudio'r Dystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg i'w fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith.

Mae'r dystysgrif yn agored i unrhyw fyfyrwr sy'n astudio mewn prifysgol yng Nghymru. Mae wedi'i datblygu i alluogi myfyrwyr prifysgol i ennill cymhwyster CBAC sy'n dystiolaeth o'u sgiliau iaith, a'u gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r dystysgrif yn dystiolaeth o allu myfyrwyr i gyfathrebu'n hyderus a phroffesiynol, ar lafar ac yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r iaith.

Dyfarnwyd y dystysgrif am y tro cyntaf yn 2013, a hyd yn hyn mae dros 800 o fyfyrwr wedi'i chwblhau, a bellach caiff ei chydabod gan nifer o gyflogwyr fel cymhwyster achrededig.

Agorodd y cofrestru ym mis Medi i fyfyrwyr wneud cais, ar ôl mynd i Ffair y Glas eleni am y tro cyntaf, dywedodd Lisa Allsup, Swyddog Ymgysylltu â Myfyrwyr a Swyddog Cangen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol;

'Roedd hi'n glir i weld bod myfyrwyr ym Mhrifysgol Glyndŵr yn gyffrous i ymgysylltu â'r Gymraeg. Fel Swyddog Cangen y Coleg Cymraeg, bydd y Dystysgrif Sgiliau Iaith

Gymraeg gobeithio yn un o nifer o gymwysterau, digwyddiadau, a gweithgareddau y gellir eu cynnig i fyfyrwyr, a gallwn ddatblygu a sefydlu cymuned Gymreig yng Nglyndŵr.'

Ni wnaeth y pandemig gael effaith ar gyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg a chafodd y cyrsiau canlynol eu cynnal yn wythnosol ar-lein:

Cyrsiau Lefel Mynediad

Yn cael ei gynnal bob dydd Mawrth ar Microsoft Teams. Mae hwn yn gwrs i ddechreuwyr lle maent yn dysgu siarad am weithgareddau bob dydd fel eu gwaith, teulu a ffrindiau a hobïau.

Cwrs Lefel Sylfaen

Yn cael ei gynnal bob dydd Llun ar Microsoft Teams. Mae'r cwrs hwn yn arbennig ar gyfer y rhai sydd wedi cwblhau cwrs Lefel Mynediad a'i nod yw dysgu holl batrymau sylfaenol y Gymraeg.

Arwain y Sector

Yn ystod 2020/21 (ac yn parhau tan 2023) gweithredodd y Dirprwy Is-Ganghellor ar ran Prifysgol Glyndŵr Wrecsam fel awdur ac arweinydd ar gyfer prosiect Cronfa Arloesedd ac Adfer Addysg Uwch CCAUC yn dwyn y teitl 'Cynnal a gwella dysgu digidol ledled Cymru'. Sicrhawyd £2.7M i'w ddefnyddio ar draws partneriaeth o'r wyth prifysgol, y Brifysgol Agored (Cymru), y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru. O fewn y cyllid dyrannwyd £420,000 i'r Coleg i ddatblygu a chyflwyno deunyddiau dysgu cyfunol digidol cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel. O ganlyniad, datblygwyd deunyddiau digidol ar gyfer cyflwyno darpariaeth myfyrwyr ar ffurf dysgu o bell anghydamserol ar draws Astudiaethau Busnes, y Gyfraith, Gwyddorau Cymdeithasol, Gwyddorau Chwaraeon, a Seicoleg. Mae'r Deunyddiau Dysgu Digidol wedi'u pecynnu gyda'i gilydd ar lefel uned a thema gan ddefnyddio meddalwedd

SCORN a'u lletya ar y Porth (llyfrgell adnoddau digidol y Coleg) fel adnoddau hunangynhwysol. Bydd holl rannau pob uned ar gael yn rhwydd i staff ar draws y sector. Gan fod pob prifysgol yng Nghymru wedi bod yn rhan o'r prosiect hwn, gyda dros 50 o staff academaidd yn cyfrannu cynnwys ar gyfer y 140+ o unedau ar draws 6 phwnc, mae'r deunyddiau a gynhyrchwyd yn ychwanegiadau gwerthfawr a defnyddiol iawn i'r corff o adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg.

Roedd llinyn arall o'r prosiect dan arweiniad Glyndŵr yn Adolygiad Thematig ar draws Cymru gyfan o Ddysgu Digidol a gynhaliwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA). Roedd hyn hefyd yn cynnwys adnabod arfer da mewn perthynas â chyfrwng y Gymraeg ar draws pob prifysgol. Mae'r Dirprwy Is-Ganghellor yn parhau i arwain ar wreiddio'r gwaith hwn ar draws y sector, gan weithio gydag aelodau o rwydwaith Dysgu ac Addysgu Prifysgolion Cymru i ddatblygu Cynllun Gwella Dysgu Digidol 2021 – 2023, gan gynnwys elfen cyfrwng Cymraeg.

Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Cyfrifoldeb yr Uwch Swyddog Cydymffurfio sy'n atebol i Gyfreithiwr y Brifysgol yw rheoli risg, ymdrin â chwynion, hysbysiadau gorfodi, polisïau a gweithdrefnau yn unol â Safonau'r Gymraeg. Mae Cyfreithiwr y Brifysgol yn aelod o Bwyllgor Monitro'r Iaith Gymraeg ac mae'r Uwch Swyddog Cydymffurfio yn Glerc i'r pwyllgor hwn.

Ymdrinnir â gwaith monitro cydymffurfio ac ymgysylltu drwy:

- Cwmni trydydd parti wedi'i benodi i gynnal archwiliad mewnol a luniwyd i ystyried fframwaith y Brifysgol ar gyfer mabwysiadu Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg ar y 7 maes a ganlyn:
 - Strategaethau, Polisïau a Gweithdrefnau;
 - Sut mae'r Brifysgol yn hyrwyddo ac yn annog y defnydd o'r Gymraeg mewn perthynas ag adnoddau a deunyddiau rhanddeiliaid;
 - Adnoddau i fyfyrwyr;
 - Gwefan y brifysgol a sianelau cyfryngau cymdeithasol;
 - Adnoddau i staff;
 - Hunan-asesu ac adborth; a
 - Cytundebau gyda chyfieithwyr allanol

Casgliad yr archwiliad hwn oedd bod gan y Brifysgol fframwaith sefydledig i ddangos cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg heb unrhyw gamau rheoli. Mae canlyniadau'r archwiliad hwn wedi'u rhannu gyda'r pwyllgorau priodol a hefyd Bwrdd y Llywodraethwyr a all gymryd sicrwydd sylweddol bod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risgiau a nodwyd wedi eu dylunio'n addas ac yn cael eu gweithredu'n gyson.

- Cynhaliwyd dadansoddiad bwlich adrannol a sefydlwyd ffordd fwy cynhyrchiol o adolygu'r safonau; trwy ymdrin â nhw mewn ffordd thematig, er enghraifft; y cyfryngau cymdeithasol (safon rhif 62), y wefan (safonau 55-57) ffonau (safonau 8-22).
- Hapwiriadau ledled y campws ar-lein a rhithwir, ac os nodir bod unrhyw beth angen ei wella, cynghorir yr adran i fynd i'r afael ag ef yn gyflym. Mae themâu'r hapwiriadau a nodir yn cael eu cyfleu i'r Holl Staff yn y Cylchlythyr Cymraeg@Glyndŵr gydag erthyglau canllaw yn Campus Talk a'u hadrodd i Bwyllgor Monitro'r Gymraeg.
- Parhau i weithio drwy ein Cynllun Gwella i ategu'r llwyddiannau hyd yn hyn ymhellach
- Ymdrin â chwynion ffurfiol ac anffurfiol
- Diweddariadau i dudalennau'r fewnrwyd
- Cefnogi mentrau Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg

Gwasanaethau Cyfieithu Cymraeg

Mae gan y Brifysgol swydd sydd wedi'i neilltuo i gefnogi cyfathrebu corfforaethol dwyieithog, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol.

Mae aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg yn cefnogi cydweithwyr, lle bo'n bosibl, pan fo angen darnau bach o waith cyfieithu, mae rhai hefyd wedi ffurfioli hyn trwy wirfoddoli i fod yn Eiriolwr yr Iaith Gymraeg. Ar gyfer darnau mwy o waith neu gyfieithiadau brys, mae'r gwaith yn cael ei anfon yn allanol gyda chyfrifoldeb wedi'i ddatganoli i ganolfannau cyllideb. Mae effeithiolrwydd gwariant y Brifysgol ar gyfieithu allanol yn dal i gael ei adolygu a chaiff y canfyddiadau eu hadrodd i Bwyllgor Monitro'r Gymraeg. Bydd trafodaethau ac ystyriaethau yn parhau i gael eu cynnal mewn perthynas â gofynion y Brifysgol yn y dyfodol.

Swyddi a Sgiliau Iaith Gymraeg

Mae'r tabl isod yn dangos cymhariaeth â nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd yn ystod y cyfnod hwn ac adroddiadau'r flwyddyn flaenorol, wedi'u categoreiddio yn unol â'r gofynion o ran sgiliau Cymraeg.

Er bod nifer y swyddi gyda sgiliau Cymraeg yn Hanfodol yn isel, rydym wedi cael ein siomi gan y diffyg ymgeiswyr rhugl yn y Gymraeg a dderbyniwyd mewn ymateb i'r swyddi a hysbysebwyd. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym wedi trafod ar lefel Pwyllgor a phenderfynwyd tynnu ar ein staff presennol sy'n siarad Cymraeg i rannu swyddi gwag o'r fath o fewn eu rhwydweithiau eu hunain er mwyn ehangu'r rhwyd chwilio ymhellach a gobeithio dal y rhai nad ydynt efallai'n mynd ati i chwilio am swydd bryd hynny. Bydd diweddariad ar gynnydd yn cael ei roi yn Adroddiad Blynyddol flwyddyn nesaf.

Meini Prawf	01.08.18 - 31.07.19	01.08.19- 31.07.20	01.08.20- 31.07.21
Cymraeg yn Hanfodol	3	4	2
Cymraeg yn Ddymunol	128	119	116
Dim angen y Gymraeg	0	0	0

Yn eu sesiwn gynefino, cynghorir ac anogir staff newydd y Brifysgol bod cyrsiau Cymraeg am ddim ar gael iddynt.

Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru yn weithredol

Mae'r Brifysgol yn parhau i ddatblygu cymuned o staff sydd â diddordeb yn yr iaith Gymraeg drwy annog staff i gymryd rhan mewn gweithgareddau megis diwrnod hawliau'r iaith Gymraeg, a dathlu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru ar ddydd Gŵyl Dewi. Yn ogystal, gwahoddir staff i fynychu boreau coffi iaith Gymraeg ar-lein sy'n galluogi staff i sgwrsio'n Gymraeg a dysgu'r iaith, caiff hyn ei ddwysáu gan y cyfle i ddilyn cymwysterau mwy ffurfiol a gyfeiriwyd atynt yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Diwrnod Santes Dwynwen - 25 Ionawr 2021

Mae ein Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg yn nodi'r diwrnod sydd wrth galon pob Cymro rhamantus gyda neges ddwyieithog i'r Holl Staff.



Dydd Miwsig Cymru - 5 Chwefror 2021

Codwyd ymwybyddiaeth o'r diwrnod hwn yn Campus Talk i'r Holl Staff ei weld ynghyd â blog gan aelod o staff am ei hoff gerddoriaeth Gymraeg.



Dydd Gŵyl Dewi - 1 Mawrth 2021

Recordiodd ein Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg ymadrodd/neges yr wythnos ddwyieithog arbennig i'r HOLL Staff i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, lle dymunodd Ddydd Gŵyl Dewi Hapus iddynt a'u hannog i '*wisgo cenhinen Bedr yn eu het neu sgarff ac yn eu calonnau*':

DYWEDIAD CYMRAEG YR WYTHOS

Yr wythnos hon mae Elen Mai yn ffocysu ar Ddydd Gŵyl Dewi Sant:



Er nad oedd posib cynnal yr Orymdaith Dydd Gŵyl Dewi eleni, roedd y staff wrth eu bodd i allu cyfrannu at y ffilm fer hon a grëwyd gan Fenter Iaith Fflint a Wrecsam:



Fel y dywedodd y nawddsant ei hun, '*gwnewch y pethau bychain*'. Creodd ein Hundeb y Myfyrwyr fideo lle mae staff, myfyrwyr, aelodau'r Cyngor, staff Undeb y Myfyrwyr ac aelodau staff PGW yn rhannu'r hyn a wnaethant i wneud gwahaniaeth ac i ddymuno Dydd Gŵyl Dewi Hapus i bawb wrth rannu eu gweithredoedd o garedigrwydd:



Hyrwyddir yn fewnol drwy'r fewnwyd staff, porth newyddion mewnol (Campus Talk), sesiynau cynefino gweithwyr a'r Cylchlythyr.

Cylchlythyr Cymraeg@Glyndŵr

Mae'r cyhoeddiad dwywaith y flwyddyn hwn, sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg, gan yr Uwch Swyddog Cydymffurfio yn llawn newyddion, diweddariadau, cwisiau, chwileiriau a ffeithiau difyr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynglŷn â Cymraeg@Glyndŵr a thraddodiadau Cymreig. Mae rhifynnau diweddar hefyd wedi cynnwys digwyddiadau, mewnol ac allanol; megis y rhai a gynigir gan y Fenter Iaith ac yn cynnwys dolen i '**Cymraeg – What a Journey!**', gweler isod, fideo hwyliog sy'n rhoi sylw i daith y Gymraeg o'i chychwyn cyntaf hyd at Strategaeth Cymraeg 2050 sy'n nodi dull hirdymor Llywodraeth Cymru o gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.



<https://www.youtube.com/watch?v=1N3-QtuA8I8>

Cyhoeddir y cylchlythyr ar y fewnwyd staff ac mae'r nifer o ymweliadau unigol â'r rhifynnau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cofnodi a'u hadrodd i'r Pwyllgor Monitro Iaith Gymraeg, i fonitro ymgysylltiad a thrafod cyfleoedd i hyrwyddo. Mae'r nifer o ymweliadau â phob rhifyn a dewis iaith isod:

Tudalen Gymraeg

Rhifyn Cyntaf (Rhagfyr 2019)	12
Ail Rhifyn (Haf 2020)	23
Trydydd Rhifyn (Rhagfyr 2020)	5
Pedwerydd Rhifyn (Haf 2021)	10

Tudalen Saesneg

Rhifyn Cyntaf (Rhagfyr 2019)	39
Ail Rhifyn (Haf 2020)	50
Trydydd Rhifyn (Rhagfyr 2020)	24
Pedwerydd Rhifyn (Haf 2021)	38

Rydym i gyd yn croesawu adborth o bryd i'w gilydd, yn enwedig adborth cadarnhaol!

Dyma gipolwg ar rai o'r adborth a gafwyd gan ddarllenwyr y cylchlythyr

Cymraeg@Glyndŵr:

'Cylchlythyr gwych, llongyfarchiadau i'r trefnwyr a phawb sydd wedi cyfrannu at y rhifyn Nadoligaidd hwn, diolch a Nadolig Llawen.'

'Cylchlythyr gwych, diolch.'

'Fe wnes i fwynhau darllen hwn yn fawr, mae'n ddifyr iawn ac wedi'i roi at ei gilydd yn dda. Diolch i'r tîm sy'n ei roi at ei gilydd.'

'Mae'r cylchlythyr hwn yn wych, da iawn.'

Cymuned Gymreig y Brifysgol

Fel Prifysgol sy'n falch o fod yng Nghymru, ac o ofalu am ei buddiannau, rydym yn gweithio'n galed i gefnogi'r anghenion cymdeithasol, busnes, cyhoeddus a chymunedol, lleol gwahanol. Un agwedd yr ydym wedi bod yn ceisio ei gwella yn ddiweddar yw sut ydym yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn fwy effeithiol yn ein gwaith gyda'r cymunedau hyn. Er ein bod wedi ehangu'n sylweddol y ddarpariaeth o gyfleoedd addysgu a dysgu cyfrwng Gymraeg o fewn y Brifysgol yn ogystal â'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ein cyfathrebu allanol, roeddem yn awyddus i wneud mwy a gwneud yn siŵr bod yr hyn a wnawn yn gweithio.

Penderfynasom y byddai'n syniad da gwahodd pobl yr ydym yn eu hystyried yn 'gyfeillion' i'r Brifysgol i ymuno â grŵp cynghori anffurfiol, dan arweiniad ein Hisganhellor, maent yn cynnwys; Cymrodorion Prifysgol, Gweinidog Lleol, cyfieithydd, cynrychiolydd o'r Fenter Iaith, aelod o'n cymuned. Mae staff o'r Undeb Myfyrwyr, Cyfadrannau a Chyfathrebu yn ymuno hefyd. Ni wnaeth y pandemig atal y gymuned hon rhag dod at ei gilydd ar-lein yn 2021!

Digwyddiad rhwydweithio cyfrwng Gymraeg cyntaf Tîm Menter PGW yn llwyddiant ysgubol!

YSBRYDOLI
menter

**BUSNES
DROS BANED**

**Sgwrsio am fusnes,
dros baned, yn
Gymraeg.**

PRIFYSGOL
Glyndŵr
Wrecsam

Wrexham
glyndŵr
UNIVERSITY

Cynhaliodd y Tîm Menter eu rhith-ddigwyddiad cyfrwng Gymraeg cyntaf ar 18 Mehefin 2021 gyda Gaenor Roberts – Darlithydd mewn Arwain a Rheoli ym Mhrifysgol Glyndŵr

a pherchennog cwmni gemwaith Tlws yn ogystal â dau siaradwr gwadd; Caryl Owen – sylfaenydd gofod.space a busnesaubach.cymru a Gruffudd Roberts – Cyfarwyddwr Llaeth y Llan.

Cadarnhaodd y gefnogaeth, presenoldeb ac ymgysylltiad yn y digwyddiad hwn i'r tîm fod yn bendant angen i fusnesau ac unigolion sy'n siarad Cymraeg gael llwyfan i gysylltu â busnesau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg ac i gyfarfod ac i archwilio'r cymorth sydd ar gael i'w galluogi i dyfu eu busnesau. Nid oedd y math hwn o ddigwyddiad wedi'i gynnal o'r blaen, mae'r tîm yn hynod falch o fod yn gosod esiampl ac yn arwain y ffordd.

Fe wnaeth y tîm hefyd noddi Podlediad Dwyieithog newydd; **'Gofod i drafod' – Space to discuss'** a oedd yn cynnwys llawer o berchnogion busnesau bach yn trafod popeth yn ymwneud â rhedeg busnes bach.



laith Gwaith/Working Welsh

Pen-blwydd hapus!


Dathlodd y bathodyn laith Gwaith ei ben-blwydd yn 15 oed ym mis Tachwedd 2020 a chafodd sylw yn rhifyn mis Rhagfyr o'r cylchlythyr Cymraeg@Glyndŵr. Mae staff y Brifysgol sy'n siarad Cymraeg yn falch o wisgo'u bathodynnew a bob amser yn barod i ddarparu gwasanaeth Cymraeg i'w holl ymwelwyr a myfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg pe dymunant.

Cafodd Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg PGW, Elen Mai Nefydd, ei chyfweld ar 18 Tachwedd 2020 ar raglen 'Dros Ginió' BBC Radio Cymru i drafod beth mae'r fenter yn ei olygu i'r iaith Gymraeg a Phrifysgol Glyndŵr.




Atgoffwyd staff bod bathodynau a laniardau ar gael gan yr Adran Adnoddau Dynol.

COFFI A CHLONC yn parhau ar-lein!



Gydag ymrwymiadau'r Brifysgol yn galw ar ein Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg PGW, gyda'i hanogaeth, hwyluswyd sesiwn Coffi a Chlenc gan dri o'r mynychwyr rheolaidd a alwodd eu hunain yn 'Y Chloncinators':



Roedd y sesiwn yn brofiad gwyb i bob un ohonynt ac i'r staff a oedd yn bresennol. Yn garedig iawn, fe wnaethant rannu straeon am eu **'Taith Gymraeg'** er mwyn annog eraill yn y Cylchlythyr Cymraeg@Glyndŵr, mae rhai dyfyniadau i'w gweld isod:



'Dechreuais fy nhaith Gymraeg amser maith yn ôl mewn ysgol gynradd, cefais fy magu mewn pentref bach, es i ochr Saesneg yr ysgol ond roedd 'rhaid' i mi astudio Cymraeg, yn yr ysgol uwchradd daliais ati gyda'r Gymraeg hyd at lefel TGAU. Ar y pryd roeddwn yn hyderus iawn yn yr iaith ond doedd gen i ddim llawer o ddiddordeb yn ei dysgu, mae fy nheulu yn Saesneg a doedd dim angen i mi ei siarad gartref ac yn araf bach dechreuodd y sgil fynd i gefn y meddwl. Rwy'n sylweddoli bod hyn yn swnio'n eithaf negyddol hyd yn hyn, ond peidiwch â phoeni mae'r pwyntiau cadarnhaol ar y ffordd! Doeddwn i ddim yn deall pwysigrwydd a gwerth y Gymraeg mewn treftadaeth a hefyd ym myd gwaith ein cymunedau lleol a'r manteision a'r ymdeimlad o berthyn y gallwch chi eu teimlo. Darganfyddais bwysigrwydd yr iaith a'r angen i ailddysgu'r holl wersi hynny oedd yn teimlo fel atgof pell pan ddechreuais fy swydd gyntaf yn y Brifysgol. Rwy'n hyrwyddwr brwd nawr i bobl ifanc sy'n dysgu Cymraeg mewn ysgolion, i barhau â'u hastudiaeth ac i beidio â gwneud y camgymeriad a wnes i o beidio â'i hymarfer lle bynnag y bo modd. Roeddwn i nawr EISIAU dysgu ac mae yna gymaint o gyfleoedd yn y Brifysgol i ddysgu, byddwn i wedi bod yn dwp i beidio â rhoi cynnig arni!'

'Cefais fy ngeni a'm magu yn Wrecsam, astudiais y Gymraeg tan yn 16 oed yn yr ysgol uwchradd ac yna, ar ôl i mi adael yr ysgol, dirywiodd fy astudiaeth a'm defnydd o'r Gymraeg yn gyflym. Wnes i ddim parhau â'm hastudiaethau mewn Addysg Bellach ac rwyf wedi gweithio i lawer o sefydliadau yn Lloegr, sydd byth yn cynnig cyfle o'r fath i staff. Arweiniodd hyn, ynghyd â'r ffaith nad ydw i'n dod o deulu Cymraeg ei iaith, at fy sgiliau Cymraeg yn dirywio. Felly, pan ddechreuais i weithio ym Mhrifysgol Glyndŵr a chael gwybod am y cwrs Iaith Gwaith a Choffi a Chlonc, neidiais ar y cyfle. Er fy mod yn uniaethu'n llwyr fel Cymro, mae wastad wedi bod rhan ohonof a oedd yn teimlo bod angen i mi ddyfnhau fy ngwybodaeth a chael rhyw lefel o ddealltwriaeth o'r Gymraeg. Gan fy mod yn gweithio i ddarparwr Addysg Gymraeg, teimlaf ei bod yn bwysig cyfathrebu a chynorthwyo pobl sy'n defnyddio naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg. Ar ôl blwyddyn o astudio, rwy'n teimlo'n gryf fy mod ar y llwybr at y nod hwn ac yn synnu cymaint rydw i wedi'i ddysgu. Roedd hi'n braf trosglwyddo gwybodaeth o'r Gymraeg

yr oeddem wedi'i dysgu i bobl eraill sy'n rhannu'r un angerdd tuag at y Gymraeg gan gadarnhau'r hyn yr oeddem wedi'i ddysgu yn y dosbarth.'

'Dechreuais ddysgu Cymraeg yn yr ysgol gynradd a daliais ati i ddysgu'r iaith tan i mi orffen yn yr ysgol uwchradd. Rwyf wastad wedi teimlo angerdd tuag at ddysgu'r iaith, a'r freuddwyd yw siarad yr iaith yn rhugl rhyw ddiwrnod! Fodd bynnag, yn anffodus, pan ddechreuais addysg bellach, ychydig iawn o gyfleoedd oedd yna i mi barhau i ddysgu'r iaith. Ar ôl gorffen fy ngradd israddedig, symudais yn ôl i Gymru a phenderfynais ddechrau chwilio am gyfleoedd i ddysgu'r iaith eto. Astudiais gwrs Cymraeg rhan amser am ddwy flynedd yn y coleg lleol a dechreuais fynd i ddigwyddiadau cymdeithasol Cymraeg cyn dechrau gweithio i Brifysgol Glyndŵr Wrecsam. Clywais fod y Brifysgol yn gwneud dosbarthiadau Cymraeg a chofrestrais yn syth ac rwyf wedi mwynhau'r dosbarthiadau'n ofnadwy. Ymhen ychydig, dechreuodd y sesiynau Coffi a Chlonc. Roedd y sesiynau hyn yn gyfle gwych i ymarfer siarad y Gymraeg yn y gweithle. Yn ogystal â'r sesiynau Coffi a Chlonc, dechreuais astudio'r cwrs Iaith Gwaith (lefel Mynediad) ar ddechrau 2020. Mae wedi gwella fy ngwybodaeth am y Gymraeg a fy hyder wrth ddefnyddio'r iaith yn y gweithle. Rwyf hefyd wedi dwyn i gof llawer o Gymraeg a ddygais yn fy mlynnyddoedd cynnar! Os oes gennych ddiddordeb mewn dechrau dysgu Cymraeg neu os hoffech ail-afael yn yr iaith eto, byddwn yn argymhell yn fawr eich bod yn dod draw naill ai i'r sesiynau Coffi a Chlonc neu wneud un o'r cyrsiau sydd gan PGW i'w cynnig, ni fyddwch yn difaru!'

Nifer yr ymwelwyr ar y tudalennau gwe Cymraeg a Saesneg



Mae'r Brifysgol wedi cael amrywiaeth o adborth cadarnhaol gan randdeiliaid ynghylch safon ei thudalennau gwe, mae'r tabl isod yn dangos cymhariaeth rhwng ymweliadau â'n tudalennau gwe yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn ac adroddiadau blaenorol. Y tudalennau mwyaf poblogaidd yr edrychir arnynt o hyd yw'r rhai sy'n rhoi gwybodaeth i fyfyrwyr megis ein cyrsiau israddedig a'n diwrnodau agored, gyda chynnydd yn y diddordeb yn ein tudalennau gwybodaeth am gyrsiau ôl-raddedig. Roedd y tudalennau yn rhoi diweddariadau am y sefyllfa Covid-19 a'r effaith ar y flwyddyn academaidd hefyd yn boblogaidd.

	Gwefan Gymraeg	Gwefan Saesneg
Ymweliadau unigol â thudalennau		
01.08.18 - 31.07.19	8,582	1,103,631
01.08.19 - 31.07.20	14,618	1,439,524
01.08.20 - 31.07.21	12,190	1,781,900
Y gwahaniaeth o'i gymharu ag adroddiad y llynedd +/-	-2,428 -17%	+342,376 +24%
Amser cyfartalog ar y dudalen		
01.08.18 - 31.07.19	1 munud 48 eiliad	1 munud 18 eiliad
01.08.19 - 31.07.20	2 funud 03 eiliad	1 munud 20 eiliad
01.08.20 - 31.07.21	1 munud 38 eiliad	1 munud 20 eiliad
Y gwahaniaeth o'i gymharu ag adroddiad y llynedd +/-	-25 eiliad -20%	0 0%

Bu cynnydd cadarnhaol hefyd mewn ymweliadau â thudalen wybodaeth benodol Cymraeg ar ein gwefannau:

	Y dudalen Gymraeg ar y Wefan	Y dudalen Saesneg ar y Wefan
Ymweliadau unigol â thudalennau		
01.08.19 - 31.07.20	18	70
01.08.20 - 31.07.21	43	149
Gwahaniaeth +/-	+25	+79

Nifer y staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg

Mae'r adran Adnoddau Dynol yn cofnodi lefelau gweithwyr yn ystod y broses gynefino. Mae gofyn i weithwyr ddewis eu lefel, o 0-8, o allu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg. Mae arolwg hefyd yn cael ei gynnal unwaith y flwyddyn er mwyn sicrhau bod cofnodion yn cael eu diweddarau.

Yn sgil y pandemig a oedd yn gorfodi'r holl staff i weithio o bell, a'r oedi gyda'r system Adnoddau Dynol newydd (a fydd yn darparu elfen hunanwasanaeth i staff gael nodi eu hyfedredd a'u dewis iaith eu hunain), mae oedi wedi bod yn cynnal yr arolwg hwn. Wrth baratoi ar gyfer y system Adnoddau Dynol newydd bydd y wybodaeth hon yn cael ei chasglu ac ar gael flwyddyn nesaf.

Hyfforddiant a chyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg

Ar hyn o bryd, mae hyfforddiant ar gael yn Gymraeg ar gais, ac mae hynny'n cael ei hyrwyddo wrth hysbysebu sesiynau, fodd bynnag, hyd yma, nid oes cais am hyfforddiant yn Gymraeg wedi'i wneud. Ar hyn o bryd, oherwydd adnoddau, nid yw hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn Gymraeg a Saesneg yn awtomatig, fodd bynnag, pe bai gweithiwr yn gwneud cais am hyn, byddai fersiwn Gymraeg o'r hyfforddiant ar gael pe bai'n un o'r meysydd cydymffurfiaeth statudol. Hyd yma, nid yw'r adran wedi cael cais i gyflwyno yn Gymraeg. Mae sesiwn ar Safonau'r Gymraeg yn cael ei chynnwys yn y broses o gynefino gweithwyr. Pe bai gweithiwr newydd yn gwneud cais i wneud y broses gynefino yn Gymraeg, gallai'r adran Adnoddau Dynol ddarparu hynny.

Cwynion a wnaed yn uniongyrchol i'r Brifysgol mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg

Mae'r Brifysgol yn croesawu ac yn annog adborth gan aelodau'r cyhoedd, ei staff a myfyrwyr sy'n dymuno codi ymwybyddiaeth am unrhyw gamgymeriadau maent yn

sylwi arnynt mewn perthynas â chydymffurfiaeth y Brifysgol â Safonau'r Gymraeg. Wrth gael y gŵyn i law yn uniongyrchol, yn anffurfiol neu'n ffurfiol, mae'n ein galluogi i ymchwilio'r mater, ei gywiro yn ôl yr angen ac ymateb yn gyflym i'r sawl sy'n cyflwyno'r gŵyn.

Mae'r tabl isod yn dangos categorïau'r safonau y mae'r cwynion yn ymwneud â nhw yn ystod y cyfnodau adolygu a nodir er cymhariaeth:

Grŵp safonau	01.08.18 - 31.07.19	01.08.19- 31.07.20	01.08.20- 31.07.21
Safonau cyflenwi gwasanaeth	3	6	0
Safonau llunio polisiau	0	0	0
Safonau gweithredol	0	0	0

Mae'n bleser gan y Brifysgol nodi seroau yn y tabl uchod ar gyfer cyfnod yr adroddiad hwn, ac mae hyn yn dyst i ymroddiad ac ymrwymiad yr holl staff wrth gydweithio tuag at gydymffurfio.

Hapwiriadau Mewnol

Mae gan y Brifysgol fecanwaith rheolaeth fewnol yn ei le lle mae'r Uwch Swyddog Cydymffurfio yn cynnal hapwiriadau (y tu mewn a'r tu allan) ac yn hysbysu cydweithwyr priodol o fewn adrannau am unrhyw faterion a nodir er mwyn gallu eu cywiro. Caiff manylion y rhain a'r camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â nhw eu hadrodd i Bwyllgor Monitro'r Iaith Gymraeg.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, nodwyd y themâu canlynol a thynnwyd sylw cydweithwyr atynt:

- ◇ Ymatebion awtomatig allan o'r swyddfa - gyda thestun Saesneg yn unig neu nid oedd y testun Cymraeg yn cyfateb i'r testun Saesneg ar y neges.
- ◇ Testun Saesneg ar y tudalennau Cymraeg cyfatebol ar y wefan

- ◇ Roedd dolenni ar leiafrif bach o dudalennau Cymraeg wedi'u cysylltu â'r dudalen Saesneg mewn camgymeriad

Nodwyd gan aelodau Pwyllgor y Gymraeg bod negeseuon dwyieithog 'allan o'r swyddfa' wedi'u nodi eto fel thema allweddol a chafwyd trafodaethau ar sut i ddatrys hyn. Er bod canllawiau/templedi negeseuon safonol ar gael ar fewnwyd y staff, cydnabuwyd efallai na fyddant bob amser yn addas mewn rhai achosion. Cytunwyd i greu rhestr o staff a fyddai'n fodlon cynorthwyo cydweithwyr gyda chyfieithiadau bach ad hoc, megis negeseuon allan o'r swyddfa, a'i hyrwyddo i staff. Ar hyn o bryd, mae yna bedwar aelod o staff sy'n gwirfoddoli ac rydym yn falch i'w galw yn ein **Heiriolwyr Iaith Gymraeg**:



Cafodd yr erthygl ragarweiniol ganlynol ei chynnwys yn Campus Talk a'r cylchlythyr Cymraeg@Glyndŵr i godi ymwybyddiaeth:

'Dim ond ychydig o eiriau rwyf angen eu cyfieithu i'r Gymraeg? A oes gwir angen i mi gysylltu â chwmni cyfieithu allanol?'

'Mae angen newid ychydig ar fy neges allan o'r swyddfa, all rhywun yn fewnol fy helpu gyda chwpl o eiriau Cymraeg?'

Swnio'n gyfarwydd?

Beth allwch chi ei wneud:

Cam 1 – Darperir dolenni i'r canllawiau iaith ar fewnwyd y staff sy'n cynnwys negeseuon safonol allan o'r swyddfa wedi'u cyfieithu.

Cam 2 - Os na allwch ddod o hyd i'r geiriau yr ydych yn chwilio amdanynt ar fewnwyd y staff, mae'r Eiriolwyr Iaith Gymraeg yn hapus i chi gysylltu â nhw. Cofiwch, serch

hynny, fod ganddyn nhw eu swyddi bob dydd hefyd, felly, gofynnwch pan fyddwch chi'n ansicr o ambell air yma ac acw, dylai darnau mwy o waith cyfieithu gael eu hanfon at gwmni cyfieithu allanol. Bydd geiriau/ymadroddion a gyfieithir yn gyffredin a brosesir gan yr Eiriolwyr Iaith Gymraeg yn cael eu trosglwyddo i'r Uwch Swyddog Cydymffurfio a fydd yn ychwanegu at yr adnoddau ar y fewnrwyd.

Cam gweithredu gan y Pwyllgor Monitro'r Iaith Gymraeg yw i fanylion yr Eiriolwyr Iaith Gymraeg gael eu hyrwyddo i'r Holl Staff yn chwarterol, mae eu manylion hefyd ar gael ar fewnrwyd y staff. Bydd adroddiad am y defnydd o'r gwasanaeth yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Monitro'r Iaith Gymraeg.

Mewn perthynas â themâu'r wefan a adnabuwyd, rhoddwyd sicrwydd i'r pwyllgor fod gwaith ar y gweill i ddisodli gwefan bresennol y Brifysgol gyda gwell prosesau rheoli yn eu lle o ran uwchlwytho gwybodaeth. Bydd papur ar y prosesau rheoli hyn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Monitro'r Iaith Gymraeg.

Diolch am gymryd yr amser i ddarllen yr Adroddiad Blynyddol hwn, a gyhoeddir ar wefan y Brifysgol ac mae copi caled ar gael mewn swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau'n ymwneud â'r adroddiad, anfonwch nhw mewn e-bost i:

cydymffurfiocymraeg@glyndwr.ac.uk